**ADRODDIAD BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2023-2024**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**Ysgrifennwyd y rhagair gan Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol**

*O'r cychwyn cyntaf, roedd cyfarfod cyntaf Fforwm Mynediad Lleol newydd Rhondda Cynon Taf llawn brwdfrydedd. Mae ein haelodau yn cynrychioli ystod o ddefnyddwyr mynediad tir a defnyddwyr Hawl Tramwy Cyhoeddus, a chyda'i gilydd mae gyda nhw ystod eang o wybodaeth, profiad a rhesymau dros fwynhau byd natur. Mae'r rhain yn cynnwys ehangu hawliau mynediad, gwneud ein cefn gwlad a natur yn fwy hygyrch, codi a datrys problemau a gaiff eu profi gan farchogion a buddiannau sy'n gwrthdaro, e.e. llwybrau troed neu hen lwybrau troed a chilffyrdd a gaiff eu defnyddio gan gerddwyr, rhedwyr a beicwyr, beiciau/sgwteri trydan, marchogion a defnyddwyr cerbydau modur cyfreithlon a chyfrifol, a chael gwared ar rwystrau i fynediad i'r rhai â symudedd cyfyngedig, defnyddio cadeiriau olwyn, rhieni â chadeiriau gwthio a phlant ifainc. Teimlaf, yn elfennol, fod aelodau a swyddogion y Cyngor yn credu bod hyrwyddo'r ased yma yn hollbwysig fel gwasanaeth iechyd naturiol ar gyfer iachâd meddyliol a chorfforol, lles, a mwynhad. Cafwyd cyfraniadau gan bawb, gydag awgrymiadau defnyddiol i'r Fforwm eu datblygu fel prosiectau a rhaglenni. Ymddengys bod yr ymchwiliad a'r ymchwil i ba ddulliau sydd ar gael i ddangos y manteision iechyd o gael mynediad at fyd natur o ddiddordeb arbennig i'r grŵp. Syniad arall i'w roi ar waith yw llunio a datblygu cyfeirlyfr o grwpiau ledled Rhondda Cynon Taf sy'n cymryd rhan weithredol mewn diddordebau lleol sy'n ymwneud â mynediad. Mae'r rhan fwyaf o'r materion perthnasol a godwyd mewn cyfarfodydd wedi'u hegluro gan y cyrff perthnasol, ac mae diweddariadau ar waith y garfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi'u rhannu â'r Fforwm. Mae angen egluro canllawiau a dehongliad penodol o'r Cynllun Teithio Llesol ynghylch defnydd marchogol a'r mater a godwyd ynghylch atalyddion beiciau modur.*

*Gan fod Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn mynd i gael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu lleol awdurdodau lleol, cytunodd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, maen nhw'n rhan o'r weithdrefn yma.*

*Ar ran y Fforwm, hoffwn ddiolch i Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf a'r Garfan Cefn Gwlad am annog y mewnbwn a roddwyd gan aelodau'r Fforwm. Edrychwn ymlaen at fwrw ymlaen â'r uchod, yn ogystal â syniadau diddorol eraill y mae carfan Rhondda Cynon Taf yn eu hystyried sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Fforwm. Rydyn ni'n rhagweld blwyddyn gynhyrchiol a phleserus o'n blaenau. Diolch. Claire Brenton- Taylor 26 Ionawr 2024.*

**Cadeirydd –** Claire Brenton-Taylor
**Dirprwy Gadeirydd –** Paul Ford

**Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:**
Y Cynghorydd Ann Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr

Amgylchedd a Hamdden
Jason Bragg – Swyddog Hawl Tramwy Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol
Sarah Williams – Swyddog Gweinyddol Cefn Gwlad a Hawl Tramwy Cyhoeddus
Timothy Phillips – Swyddog Mapiau Diffiniol
Gareth Henson – Rheolwr Cefn Gwlad

**Aelodau Cyfoeth Naturiol Cymru:**
Miki Miyata Lee – Pobl a Lleoedd, Uwch Swyddog
Andy Robinson – Arweinydd Tim, Pobl a Lleoedd

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol | 18 |
| Nifer yr aelodau sy'n cynrychioli defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus neu fynediad i dir yn bennaf ar gyfer:<br>Cerdded/rhedeg<br>Marchogaeth<br>Beicio<br>Cerbyd modur cyfreithlon a chyfrifol/defnyddwyr pob tir | <br><br>10<br>3<br>1<br>2 |
| Nifer yr aelodau sy'n cynrychioli perchnogion a meddianwyr tir mynediad neu dir y mae Hawl Tramwy Cyhoeddus yn bodoli drosto | 3 |
| Nifer yr aelodau sy'n cynrychioli buddiannau eraill, e.e. anawsterau mynediad | 1 |
| Nifer aelodau'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru | 6\| |

## Aelodau Gwirfoddol – Diddordebau a Sefydliadau

Mae aelodau ein Fforwm Mynediad Lleol hefyd yn gweithio gydag ystod o grwpiau, cymdeithasau a sefydliadau eraill, neu'u bod nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw, neu mae gyda nhw ddiddordeb ynddyn nhw - gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i… Cymdeithas Ceffylau Prydain, Curvey Riders, Cymdeithas Gymunedol Cwm-bach, Rhondda Valley Runners, Sustrans, Cymdeithas Hanes Hirwaun, Tîm Achub Mynydd Aberhonddu, Coed Cadw, Cymdeithas Mannau Agored, Men's Shed Treorci, Cymdeithas Cominwyr ardal Taf-elái, Croeso i'n Coedwig, Cymdeithas Hyfforddiant Mynydda, Cyngor Mynydda Prydain, Cymdeithas Chwilio ac Achub De Cymru, Canolfan Awyr Agored Daerwynno, Grŵp Paths and Trails Ynys-y-bwl, Bonkers, Swyddog Llwybrau Troed Taf-elái, Muddy Boots RCT, RCT Marauders, Valeways, Llanharen Wimbles, Llwybrau Ceffylau Brynnau Taf-elái a Chyngor Cymuned Tonyrefail a'r Cylch.

## Siaradwyr gwadd

Adrian Morgan – Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth Strategol
Martyn Broughton a David Harris – Prosiect Croeso i'n Coedwig a Theithiau Cerdded y Parc Rhondda Cynon Taf
Gavin Bennet – Chwaraeon RhCT

**Hyfforddiant/Ymgynghoriadau**

Cyfoeth Naturiol Cymru – Strategaeth Hamdden Awyr Agored – Arolwg Ar-lein
Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Caerwenbir – Pobl yn y Dirwedd – hyfforddiant ar-lein gyda onlinesurveys.ac.uk
Ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf

**Dyddiadur Cyfarfodydd**

Dyddiadau’r cyfarfodydd:
14 Chwefror 2023, 14 Mawrth 2023, 18 Mai 2023, 17 Hydref 2023, 16 Ionawr 2024.

**Gweithgareddau'r Cyfarfod**

| **CYFARFOD UN** | |
|---|---|
| **Eitem** | **Gweithgarwch** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf / Cyfoeth Naturiol Cymru Cyflwyniadau byr | Cyflwynodd Aelod Cabinet Rhondda Cynon Taf, aelodau o staff Cyngor Rhondda Cynon Taf a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru eu hunain. |
| Aelodau Newydd – cyflwyniadau | Cyflwynodd aelodau newydd eu hunain gan roi crynodebau o'u diddordebau a'r rhesymau dros fod yn aelodau o'r Fforwm. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Rôl | Cafwyd sgwrs gan Miki Miyata-Lee am Ddatganiad Ardal a Themâu Cyfoeth Naturiol Cymru, Ardal Canol De Cymru a’i rôl yn y Garfan Pobl a Lleoedd a’i hawydd i gynnwys pobl leol. Darparwyd cyfeiriad y wefan. |
| Cyflwyniad i Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gwaith y Fforwm a gweithdrefnau'r Fforwm Mynediad Lleol. | Cafwyd cyflwyniad llawn gwybodaeth gan Jason Bragg i gyflwyno Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gwaith y Cyngor a rôl y Fforwm Mynediad Lleol. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad. |
| Sesiwn Holi ac Ateb | Roedd yr ymholiadau'n cynnwys y broses o ddiweddaru mapiau OS gydag Ardaloedd Mynediad Agored a Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Darparwyd manylion Mapiau Data Cymru, a gaiff eu gweinyddu gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac eglurwyd y byddai'r Garfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn diweddaru'r mapiau OS.<br><br>Gofynnodd aelod o'r Fforwm, Claire Brenton-Taylor, am statws yswiriant ar gyfer Tir Mynediad Agored a chadarnhaodd Jason Bragg ei fod wedi rhoi manylion cwmpas y ddeddfwriaeth berthnasol a dolen we i gael mynediad at wybodaeth am dir. |

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd Claire Brenton-Taylor y dylid cael “cyfeiriadur o Grwpiau a Sefydliadau perthnasol” a thrafodwyd a chytunwyd ei fod yn brosiect ochr ychwanegol dda posibl i'r aelodau. Ychwanegodd Cyngor Rhondda Cynon Taf y gallai gwybodaeth am Interlink a Chyswllt RhCT fod yn ddefnyddiol, darparwyd dolenni gwe.<br><br>Trafodwyd pwysigrwydd cael tirfeddianwyr yn aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol a chadarnhawyd bod rhai aelodau yn dirfeddianwyr neu o gefndir ffermio.<br><br>Codwyd a chytunwyd y dylid gwahodd siaradwyr gwadd i roi sylw i ymholiadau a materion ac i roi anerchiadau mewn cyfarfodydd.<br><br>Gwnaed ymholiad i Gyngor Rhondda Cynon Taf ofyn a ellid gwahodd yr Adran Briffyrdd i roi sgyrsiau am eu polisi ar Ffyrdd wedi'u Mabwysiadu. Cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf y byddai modd trefnu hyn. |

| **CYFARFOD DAU** | |
|---|---|
| **Eitem** | **Gweithgarwch** |
| Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeiryddion | Esboniodd Jason Bragg o Gyngor Rhondda Cynon Taf y Broses.<br>Etholwyd Claire Brenton-Taylor yn Gadeirydd a Paul Ford yn Ddirprwy Gadeirydd. |
| Prosiect Llwybr Mawr Morgannwg | Cyflwynodd James Walker fanylion y prosiect, y cynnydd hyd yma a'r camau nesaf. Rhannwyd dolen y wefan â’r grŵp Llwybr Mawr Morgannwg, www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx |
| Eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf a godwyd gan aelodau gwirfoddol y Fforwm a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Roedd y rhain yn cynnwys eglurhad gan yr Adran Briffyrdd o’u safbwynt ar rwystrau ar lwybrau i ddefnyddwyr nad ydyn nhw'n defnyddio moduron, Teithio Llesol, Croeso i'n Coedwig, Gweledigaeth Ynysybwl a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn adrodd ar faterion ac ymholiadau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, y newyddion diweddaraf am “Llwybrau'r Fro” a gwaith y Garfan Ceidwaid. Cyflwynwyd cwestiynau am deithio llesol ymlaen llaw er mwyn caniatáu amser ar gyfer ymateb ffurfiol. |

| CYFARFOD TRI | |
|---|---|
| **Eitem** | **Gweithgarwch** |
| Newyddion Diweddaraf am Deithio Llesol | Darparodd Adrian Morgan, Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth Strategol, grynodeb o gynlluniau, prosiectau a materion Teithio Llesol drwy ddosbarthu taflenni, sydd ynghlwm wrth Gofnodion y Cyfarfod.<br><br>Cafodd hyn ei ddilyn gan sesiwn holi ac ateb.<br><br>Cododd aelod o'r Fforwm, Jay Kynch, bryderon am effaith anhygyrchedd i feicwyr ar y gwasanaethau bysiau yn lle trenau a gaiff eu darparu gan Trafnidiaeth Cymru. Cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf i anfon neges at Trafnidiaeth Cymru a chynghorwyr Rhondda Cynon Taf i ofyn am resymau pam fod diffyg darpariaeth.<br><br>Gofynnodd aelod o'r Fforwm, Debbie James, pam nad oedd marchogaeth wedi'i gynnwys yn y Cynllun Teithio Llesol. Cadarnhaodd Adrian Morgan ei ddealltwriaeth ond awgrymodd y dylid dilyn y canllawiau a'r dehongliad penodol. |
| Rhaglen 'Grow Rhondda' a Chroeso i'n Coedwig (W2OW) | Cyflwynodd aelod o'r Fforwm, Martyn Broughton, gipolwg ar y prosiect trwy rannu PowerPoint. Roedd y cyflwyniad yn egluro sut roedd gwaith y Mens Shed, Treorci, o fudd i iechyd meddwl y rhai a fu'n ymwneud â chreu gerddi cymunedol yn yr ardal ac roedd yn boblogaidd iawn ymysg yr aelodau, gyda syniadau ac anogaeth yn cael eu darparu ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen. Roedd cyflwyniad PowerPoint ynghlwm â'r Cofnodion.<br><br>Cafwyd sgwrs addysgiadol gan aelod o'r Fforwm, David Harris, ar brosiectau y mae'n gweithio arnyn nhw sy'n ymwneud â theithiau cerdded Croeso i'n Coedwig yn Rhondda Cynon Taf. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar iawn am y cyflwyniad a darparwyd syniadau ac anogaeth ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen. |
| Adrodd am broblemau Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Siaradodd Sarah Williams, Cyngor Rhondda Cynon Taf, am y ffurflen 'Rhoi Gwybod' am broblemau sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, sydd bellach yn fyw ar wefan y Cyngor. Mae'r cyfleuster newydd yn caniatáu defnyddwyr i lanlwytho ffotograffau o faterion a sut i ddangos yr union leoliad gan ddefnyddio map rhyngweithiol. |

| CYFARFOD PEDWAR | |
|---|---|
| **Eitem** | **Gweithgarwch** |
| Llwybrau'r Fro 2 | Rhoddodd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, ddiweddariad trwy gyflwyniad PowerPoint o Lwybrau'r Fro 2, y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Roedd copi o'r cyflwyniad ynghlwm wrth Gofnodion y Cyfarfod. |
| Gwasanaeth Bysiau yn lle trenau Trafnidiaeth Cymru – beiciau<br><br>Y newyddion diweddaraf ar Deithio Llesol | Hyd yn hyn, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Trafnidiaeth Cymru na Chabinet Rhondda Cynon Taf ynglŷn â rhoi lle i feiciau ar y gwasanaethau bysiau yn lle trenau. Cytunodd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, i gymryd camau dilynol.<br><br>Mynegodd aelod o'r Fforwm, Debbie James, ei theimladau y dylid rhoi mwy o bwyslais ar Ddefnydd Marchogol.<br><br>Mynegodd Debbie ac Aelod o'r Fforwm, Peter Jones, bryderon hefyd ynghylch nifer yr atalyddion beiciau modur sydd mewn lle ar lwybrau ledled y sir nad ydyn nhw'n cydymffurfio â safonau cyfredol a gofynnodd beth yw polisi'r Cyngor ynglŷn â hyn. Eglurodd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, y polisi perthnasol ac awgrymodd Pete Jones fod hwn yn fater i'r Fforwm i'w ddilyn. |
| Cyfarfod Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Cymru Gyfan | Darparodd aelod o'r Fforwm, Bryan Meredith, adborth o'r cyfarfod a fynychodd. Roedd nodiadau wedi'u rhannu ymlaen llaw. |
| Y newyddion diweddaraf am wefan newydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Rhoddodd y garfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus ddiweddariad ar y wefan newydd sydd ar fin cael ei lansio. Cafwyd adolygiadau cadarnhaol gan y Fforwm o'r newidiadau a wnaed. |
| Tirlithriad Pen-pych/Gwahardd Tir Mynediad dros dro | Dosbarthwyd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau a godwyd ynghylch y tirlithriad i Aelodau'r Fforwm cyn y cyfarfod yma. |
| Arolwg ar-lein Strategaeth Hamdden Awyr Agored Cyfoeth Naturiol Cymru | Dywedodd rhai aelodau eu bod nhw wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein. |
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol Diogelu Data, gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau a oedden nhw'n cytuno i rannu eu cyfeiriadau e-bost gyda'r Cadeirydd. |
| Gosod yr agenda | Roedd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, wedi gofyn i'r aelodau yn flaenorol i feddwl am feysydd gwaith blaenoriaeth, gyda golwg ar ddatblygu blaenraglen ar gyfer y Fforwm. Cafodd y syniadau canlynol eu rhannu:<br><br>Awgrymodd Claire Brenton-Taylor greu cysylltiadau â Bwrdd |

| | |
|---|---|
| | Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i fesur manteision mynediad i'r amgylchedd naturiol/cefn gwlad er mwyn gwella iechyd meddwl a chorfforol. Trafododd yr aelodau'r heriau o ddeall a mesur y manteision yma. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhagnodi cymdeithasol trwy feddygon teulu, holiaduron, cysylltu â phrosiectau iechyd presennol a chownteri nifer yr ymwelwyr. |
| | Soniodd Andy Robinson am waith y bartneriaeth Pwysau Iach a dywedodd y byddai'n cysylltu â nhw i drafod gyda'r Fforwm.<br><br>Roedd ymchwil i rwystrau i fynediad am resymau iechyd yn syniad a godwyd gan Claire Brenton-Taylor i'r Fforwm fod yn rhan ohono. Bydd y mater yma'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Awgrymodd Claire Brenton-Taylor y dylid llunio cyfeiriadur o grwpiau lleol, clybiau, sefydliadau, a phartïon perthnasol eraill sy'n darparu neu'n cymeradwyo cyfleoedd i gael mynediad i'r amgylchedd awyr agored i wella iechyd meddwl a chorfforol. Awgrymodd yr aelodau gysylltu â Charfanau Twristiaeth RhCT a Chwaraeon RhCT am wybodaeth a chysylltiadau.<br><br>Soniodd Martyn Broughton am ddefnyddio grwpiau cymunedol i gynnal a chadw llwybrau a chyfeirbwyntio a chyfeiriodd at waith a gaiff ei wneud gan wirfoddolwyr Croeso i'n Coedwig, y rhaglen y mae'n ei goruchwylio.<br><br>Gofynnodd Pete Jones a oedd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf bolisi gwirfoddoli a holodd a oes modd i wirfoddolwyr wneud gwaith cynnal a chadw ar lwybr cyhoeddus ac a fydden nhw'n cael eu hyswirio gan y Cyngor. Eglurodd Jason Bragg y mae modd i'r Cyngor awdurdodi trydydd parti i wneud gwaith cynnal a chadw penodol ac y gallai gwirfoddolwyr gael eu hyswirio wrth wirfoddoli dan yswiriant grŵp neu sefydliad gwirfoddol.<br><br>Gofynnodd Pete Jones a ellid rhannu cofnodion y Fforwm blaenorol gyda'r Fforwm presennol. Dywedodd Jason Bragg/Sarah Williams y bydden nhw'n ymchwilio i hyn.<br><br>Gofynnodd Pete Jones a allai cynrychiolydd Chwaraeon RhCT fynychu pob cyfarfod. Cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf i wneud y cais yma. |
| Adroddiad Blynyddol | Cytunodd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, i rannu detholiadau perthnasol o'r Rheoliad adrodd a Chanllawiau'r Fforwm Mynediad Lleol a gofynnodd a oedd unrhyw aelodau'n dymuno ysgrifennu'r adroddiad gan ei adael yn agored i'r aelodau fynegi eu diddordeb. Ar ôl y cyfarfod, cytunodd Claire Brenton-Taylor i ddrafftio'r adroddiad blynyddol at ddefnydd yr aelodau. |

| CYFARFOD PUMP | |
|---|---|
| **Eitem** | **Gweithgarwch** |
| Gwasanaeth bysiau yn lle trenau Trafnidiaeth Cymru – beiciau | Derbyniwyd ateb gan Trafnidiaeth Cymru ynghylch diffyg lle i feiciau ar wasanaethau bysiau yn lle trenau cyn y cyfarfod yma. Anfonwyd yr ateb i aelodau'r Fforwm dros e-bost. Yr esboniad a roddwyd oedd ni chaniateir beiciau ar fysiau newydd fel arfer oherwydd diffyg lle neu gyfleusterau i'w diogelu. Mae'r bysiau'n darparu mannau dynodedig ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau, sy'n cael blaenoriaeth dros fagiau/eitemau personol mawr eraill. Serch hynny, lle bo'n bosibl, mae modd cludo beiciau ar fysiau ond yn ôl disgresiwn y gyrrwr a fyddai'n ystyried y math o fws, amodau cyfreithiol, capasiti a diogelwch.<br>Bydd Pete Jones yn drafftio ymateb i Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am fwy o ystyriaeth i'r mater yma ar brosiectau yn y dyfodol. |
| Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol y Fforwm | Cadarnhau bod Cofnodion Cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol blaenorol wedi'u hanfon mewn e-bost i bawb, yn ôl y gofyn. Dylai adolygu'r Cofnodion Cyfarfodydd yma alluogi'r Fforwm Mynediad Lleol i ddod i'r casgliad bod yr holl gamau wedi'u cymryd neu benderfynu gwneud gwaith dilynol ar unrhyw fusnes heb ei orffen neu fwrw ymlaen ag unrhyw faterion o ddiddordeb. |
| Gwahoddiadau i achlysuron | Achlysuron y gwahoddwyd aelodau i'w mynychu:<br>• Ail-feddwl Defnydd Tir<br>• Presgripsiynu Cymdeithasol<br>• |
| Llwybrau Cerdded Chwaraeon RhCT | Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol gan Gavin Bennet o Chwaraeon RhCT am y gwaith arloesol y mae ei garfanau wedi bod yn gweithio arno i fapio, ffilmio a digideiddio 40 o lwybrau cerdded yn Rhondda Cynon Taf. Mae modd gwylio ffilmiau ar YouTube ac mae mapiau ar gael o'u gwefan. Mae ei garfan yn gweithio gyda Theithio Llesol i wneud gwaith tebyg gyda hysbyseb llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, gan obeithio lansio hwn ym mis Ebrill 2024. Mae unrhyw waith pellach yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Awgrymodd Aelod o'r Fforwm, Debbie James, y byddai gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ddiddordeb mewn cydweithio i ddogfennu llwybrau ceffylau – mae trafodaethau pellach i'w cynnal. Holodd Claire Brenton-Taylor a oedd unrhyw awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi cymryd cyfrifoldeb tebyg, ac awgrymodd pe bai pob Cyngor yn cymryd rhan y gellid ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru.<br>O ran yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mae gan Chwaraeon RhCT ddarpariaeth i gynorthwyo. |

| | |
|---|---|
| Mynediad diogel i byllau dipio dŵr oer | Cododd aelod o'r Fforwm, Martyn Broughton, y cwestiwn ynghylch sut y gellid gwneud mynediad i byllau dipio dŵr oer ledled Rhondda Cynon Taf yn ddiogel, a gofynnodd Jason Bragg i Andy Robinson a yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymestyn Rhan 1 o ddarpariaethau 'tir mynediad' Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i 'ddŵr mewndirol'.<br>Y sefyllfa bresennol yw mai diwygiad mynediad arfaethedig gan Lywodraeth Cymru yw hwn ac nad yw wedi'i ddeddfu eto. |
| Cyfeirlyfr o sefydliadau â diddordeb | Cadarnhaodd aelod o'r Fforwm, Claire Brenton-Taylor, fod sefydliadau â diddordeb posibl yn cael eu rhestru. Pob aelod o'r<br>Fforwm i gyfrannu at y cyfeiriadur fel prosiect parhaus. Mae gweithgor i'w sefydlu i ddatblygu hyn ymhellach. Awgrymodd Brian Meredith<br>lunio ffurflen i gasglu'r wybodaeth yma. |
| Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig | Eglurodd Jason Bragg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, nad oedd Polisi AW7 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus ond eu bod nawr i'w cynnwys. Gwahoddwyd<br>aelodau'r Fforwm i gymryd rhan yn y broses ymgynghori, rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2024. |

**Eitemau eraill:**

Derbyniwyd Crynodeb o Gynhadledd Fforwm Mynediad Lleol Cymru gan Carys Drew, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac fe'i hanfonwyd at yr aelodau. Roedd y gynhadledd yn cynnwys:

- Dyfodol hamdden ar y tir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofalu amdano
- Y newyddion diweddaraf am God Cefn Gwlad gan Gyfoeth Naturiol Cymru, cafodd copïau o'r sleidiau eu darparu ar ôl y gynhadledd.
- Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diweddaru Rheoliadau Fforwm Mynediad Lleol a gafodd ei ddatblygu o dan y Rhaglen Diwygio Mynediad
- Y newyddion diweddaraf am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Mynediad at gyllid i gefnogi gwelliannau mynediad.

Mae enghreifftiau o ble mae aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol wedi ceisio dylanwadu a chynghori yn cynnwys:

- Tirlithriad ym Mhen-pych, Treherbert – lleihau'r cyfnod cau o chwe mis. Disgwylir canlyniadau arolygiad ac adroddiad terfynol gan y contractwyr Arup er mwyn gallu adolygu risgiau, gwaith posibl sydd ei angen a chostau cysylltiedig. Yn y cyfamser mae'r cyfnod gwahardd cau wedi'i ymestyn am chwe mis arall gan Gyfoeth Naturiol Cymru (hyd at 12 Gorffennaf 2024). Mae cais am ddiweddariadau rheolaidd/amserlen o gamau gweithredu arfaethedig wedi'i awgrymu gan Aelod o'r Fforwm, Bryan Meredith, fel bod modd monitro cynnydd yn ein cyfarfodydd.

- Croesfan Rheilffordd Cwm Cynon yng Nghwm-bach: Cynghori Trafnidiaeth Cymru nad oedd gât y groesfan reilffordd yn ddigon llydan i gadeiriau olwyn gael mynediad iddi. Anwybyddwyd cyngor, ac mae'r mater yn parhau i fod heb ei ddatrys.

Prosiectau'r gorffennol/presennol – Diweddariadau:

- Llwybrau a Theithiau'r Rhigos – dywedodd Jason Bragg fod arian a ddyrannwyd i'r prosiect yma'n cael ei ddargyfeirio i welliannau ym Mharc Gwledig Cwm Dâr gan nad oedd modd ei gyflawni yn ardal y prosiect gwreiddiol o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan arian Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles.

- Twnnel Aber-nant/Cwm-bach i Ferthyr Tudful – Ym mis Ionawr 2022, daeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn Gyngor arweiniol ar gyfer y cynllun yma, a hyd yma nid yw wedi cael cadarnhad o gyllid i symud ymlaen ymhellach gyda'r cynigion. Hefyd, mae angen astudiaethau ac asesiadau pellach i fynd i'r afael â materion a godwyd gan etholwyr Cwm-bach.

- Twnnel Cwm Rhondda – Mae cynlluniau i ail-agor twnnel Blaen-cwm, Cwm Rhondda a Chwm Afan ar gyfer beicio a cherdded yn parhau. Ar 24 Chwefror 2024, cymerodd Cymdeithas Twnnel Cwm Rhondda berchnogaeth ar lain o dir i ddatblygu parc gwledig bach a chanolfan ymwelwyr ger mynedfa twnnel Blaen-cwm. Mae cynigion technegol yn cael eu datblygu ac mae ceisiadau am gyllid a grantiau pellach yn cael eu gwneud. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith cloddio bach i gael mynediad ym Mlaen-cwm a dechrau gwaith atgyweirio, ac yna ar gyfer mynediad ym Mlaengwynfi. Mae angen mynediad ar ddau ben y twnnel er mwyn dechrau ar y prif waith atgyweirio.